Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwella'r cyngor ar gyfer cynlllunio ac adeiladu llwybrau cerdded, olwyno a beicio newydd

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl









Tachwedd 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddarllen o: **Dogfen Ymgynghori Llywodraeth Cymru ar gyfer y Canllawiau Deddf Teithio Llesol (CDTLL) wedi'u diweddaru.**




Efallai y byddwch chi angen help  i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Gwefan:** www.llyw.cymru/canllawiau-ddeddf-teithio-llesol

**Ebost:** engageatag@tfw.wales

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 4035272477

# Cynnwys


Am y ddogfen yma ........ 4

Sut i ymateb ........ 9

Llwybrau sydd yn cael eu rhannu ........ 11

Mynedfa ffordd ochr gyfunol ........ 15

Llwybrau beicio wrth arosfannau bysiau ........ 19

Cynllunio ac adeiladu llwybrau teithio llesol ........ 26

Gwneud y canllaw yn haws ac yn gynhwysol ........ 30

Creu lleoedd ........ 33

Cymraeg ........ 36

Sylwadau eraill ........ 38

Amdanoch chi ........ 39

# Am y ddogfen yma




Rydyn ni eisiau diweddaru ein canllawiau a'n rheolau ar gyfer cynllunio ac adeiladu **llwybrau** ar gyfer **Teithio Llesol**.



Mae **Teithio Llesol** yn meddwl **cerdded**, **olwyno** neu **feicio** yn rhywle.



**Cerdded** – mae hyn yn meddwl pobl sy'n cerdded neu'n rhedeg.



**Olwyno** - mae hyn yn meddwl pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, sgwteri neu gymhorthion symudedd olwynion eraill.Mae hefyd yn gallu meddwl gwthio cadair wthio neu drol llaw, neu dynnu bag olwynion.



**Beicio** – defnyddio beic



Mae'n gallu meddwl defnyddio bysiau neu drenau ar gyfer rhan o'ch taith. Ac yna **cerdded**, **olwyno** neu **feicio** ar gyfer rhan arall o'ch taith.



Mae llwybrau yn meddwl y llwybrau rydych chi'n gallu eu defnyddio ar gyfer pethau fel cerdded, olwyno a beicio.



Mae teithio llesol yn ein helpu ni i leihau'r defnydd o gar. Mae'n fwy iach i bobl ac yn well i'r blaned.



Nid oes gan bawb gar neu dydyn nhw ddim yn gallu gyrru car. Mae'n rhaid i ni ei gwneud hi'n ddiogel ac yn hawdd i bobl sydd heb gar gyrraedd lle mae angen iddyn nhw fynd.

## Canllawiau Deddf Teithio Llesol




Fe wnaethon ni ein canllaw cyntaf yn 2014 a'i ddiweddaru yn 2021. Fe fyddwn ni'n gwneud y canllaw newydd wedi'i ddiweddaru yn 2026.




Rydyn ni eisiau diweddaru'r canllaw i:

- Gwneud llwybrau teithio yn hawdd ac yn ddiogel i bawb.
- Cynnwys ymchwil a gwybodaeth newydd.
- Gwneud y canllaw yn fwy clir ac yn fwy hawdd i'w ddefnyddio a'i ddilyn.
- Cysylltu bysiau a threnau yn well gyda cherdded, olwyno a beicio.




Mae arolygon yn dangos bod pobl eisiau llwybrau diogel mae pawb yn gallu eu defnyddio.



Mae rhai dyluniadau strydoedd yn gallu ei gwneud hi'n anodd i bobl anabl. Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n ddall neu sydd â cholled golwg.



Mae'r canllaw ar gyfer pobl sy'n dylunio a chynllunio llwybrau – fel llwybrau, croesfannau a ffyrdd.



Ond rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn cynnwys adborth gan bobl sy'n defnyddio'r llwybrau yma.



Mae'r ddogfen yma am y newidiadau rydyn ni eisiau eu gwneud.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am y newidiadau yma.



Rydyn ni hefyd eisiau gwybod os oes gennych chi unrhyw syniadau i’w gwneud hi’n haws cerdded, olwyno a beicio.



Darllenwch y ddogfen yma ac atebwch y cwestiynau.



# Sut i ymateb



Llenwch ein ffurflen ar-lein: https://www.llyw.cymru/canllawiaur-ddeddf-teithio-llesol



Lawrlwythwch ein ffurflen ymateb, ei llenwi, ac e-bostiwch: engageatag@tfw.wales



Lawrlwythwch ein ffurflen ymateb, ei llenwi, a’i phostio i:

Tîm Swyddfa Dylunio Teithio Llesol, 2il Lawr

Trafnidiaeth Cymru,

Llys Cadwyn,

Pontypridd

CF37 4YDD



Neu rydych chi’n gallu ymuno â ni yn un o’n digwyddiadau ym **mis Ionawr a Chwefror 2026**. Fe fydd digwyddiadau ar draws  Cymru.



I gael gwybod mwy, rydych chi’n gallu anfon e-bost  at:

engageatag@tfw.wales

## Gwybodaeth mewn fformatau eraill

Mae’r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.




Rydych chi’n gallu gofyn am y ddogfen yma mewn print bras, Braille a fformatau hygyrch eraill. Rydych chi hefyd yn gallu gofyn am y ddogfen yma mewn ieithoedd eraill.

Am ragor o wybodaeth neu i ymuno â sesiwn wybodaeth:



**Ebostiwch**: engageatag@tfw.wales



**Ysgrifennwch at:**

Tîm Swyddfa Dylunio Teithio Llesol, 2il Lawr

Trafnidiaeth Cymru,

Llys Cadwyn,

Pontypridd

CF37 4YDD

# Llwybrau sydd yn cael eu rhannu



Mae'r rhain yn lwybrau sydd yn cael eu rhannu gan bobl sydd yn cerdded, olwyno a beicio.



Does dim gwahaniad ar y llwybrau. Mae hyn yn meddwl bod pobl sydd yn cerdded, beicio neu ddefnyddio cadeiriau olwyn i gyd yn defnyddio'r un llwybr.



Mae llwybrau sydd yn cael eu rhannu yn gallu bod i ffwrdd o ffyrdd. Neu maen nhw'n gallu bod yn balmentydd lle mae beicio yn cael ei ganiartau.



Mewn ardaloedd prysur, mae llwybrau sydd yn cael eu rhannu yn gallu bod yn anodd ac yn straen i rai pobl.



Mae llwybrau sydd yn cael eu rhannu yn gallu ei gwneud hi'n anodd i bobl anabl, yn enwedig pobl ddall, pobl â cholled golwg a phobl fyddar. Efallai na fyddan nhw'n teimlo'n ddiogel o gwmpas beiciau sydd yn symud yn gyflym.

## Newidiadau i lwybrau sydd yn cael eu rhannu



Rydyn ni eisiau i lwybrau sydd yn cael eu rhannu fod yn fwy llydan lle mae rhwng 100 a 200 o bobl yn beicio yr awr.



Os oes mwy na 300 o bobl yn beicio yr awr, rydyn ni eisiau llwybr ar wahân iddyn nhw.



Os nad ydyn ni'n gallu cael llwybrau ar wahân, fe ddylen ni wneud y llwybr hyd yn oed yn fwy llydan.



# Cwestiynau am lwybrau sydd yn cael eu rhannu



1. **Rydyn ni eisiau i lwybrau sydd yn cael eu rhannu fod yn fwy llydan lle mae rhwng 100 a 200 o bobl yn beicio yr awr.**



**Rydyn ni eisiau llwybrau beicio ar wahân lle mae mwy na 300 o bobl yn beicio yr awr.**

**Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma yn gwneud llwybrau sydd yn cael eu rhannu yn well i bawb?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn siŵr



**Dywedwch wrthyn ni os ydych chi eisiau rhannu eich profiadau neu os oes gennych chi unrhyw farn arall am lwybrau sydd yn cael eu rhannu:**

# Mynedfa ffordd ochr gyfunol



Mae’r rhain yn droedffyrdd sy’n mynd ar draws ffyrdd ochr.



Mae’n meddwl bod ceir yn gorfod croesi dros y droedffordd i droi i mewn neu allan o ffordd ochr.



Fe ddylai pobl sy’n gyrru ceir stopio pan fyddan nhw’n troi i mewn neu allan o ffordd ochr os oes pobl yno. Ond dydyn nhw ddim bob amser yn gwneud hyn.



Mae’r croesfannau yma yn gallu bod yn anodd i bobl sy’n ddall neu sydd â cholled golwg eu defnyddio. Oherwydd does dim palmant rhwng y droedffordd a’r ffordd.



Dydyn nhw ddim yn gallu dweud pryd maen nhw’n cerdded i mewn i le lle mae ceir yn gallu croesi’r palmant.



Yn aml does dim **palmant cyffyrddol** i’w tywys.



Mae **palmant cyffyrddol** yn fath o arwyneb ar y ddaear gyda lympiau neu linellau wedi’u codi. Mae’n helpu pobl sy’n ddall neu sydd â cholled golwg i deimlo lle mae’n ddiogel cerdded neu groesi.



# Newidiadau i fynedfeydd ffordd ochr gyfunol



Rydyn ni eisiau ychwanegu **palmant cyffyrddol** gweladwy ar groesfannau, fel yn y llun yma.



Fe fydd hyn yn helpu i ddangos y lle dylai pobl groesi'n glir. A'i gwneud hi'n fwy diogel i bobl.

## Cwestiwn am fynedfeydd ffordd ochr gyfunol



2. **Ydych chi'n meddwl y bydd palmant cyffyrddol gweladwy yn gwneud croesfannau yn fwy diogel?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim yn siŵr

**Dywedwch wrthyn ni os ydych chi eisiau rhannu eich profiadau neu os oes gennych chi unrhyw farn arall:**

# Llwybrau beicio wrth arosfannau bysiau



Weithiau mae llwybrau beicio yn mynd heibio i arosfannau bysiau.



Rhaid i bobl groesi'r llwybr beicio i fynd ar neu oddi ar fws.



Mae rhai pobl anabl, yn enwedig pobl ddall a phobl â cholled golwg, yn gweld y llwybrau yma yn anodd oherwydd nad ydyn nhw'n gallu dweud os ydy beiciwr yn dod tuag atyn nhw.

**Mae ymchwil yn dangos:**



- Does dim llawer o bobl yn cael eu hanafu gan bobl sy’n beicio wrth arosfannau bysiau.



- Mae crosfannau bysiau lle mae angen i bobl groesi llwybrau beicio yn gallu bod yn risg i bobl sydd â cholled golwg a rhai pobl eraill.



- Mae llwybrau beicio yn bwysig i helpu mwy o bobl i deimlo’n ddiogel i feicio ar strydoedd prysur.

- Mae arosfannau bysiau gyda llwybrau beicio yn helpu pobl anabl a phlant i feicio yn ddiogel. Ond mae angen ffordd glir o stopio pobl i feicio pan fydd bws yn yr arhosfan bws.

- Fe fyddai cael gwared ar lwybrau beicio wrth arosfannau bysiau yn gorfodi beicwyr yn ôl i draffig. Mae’n bwysig bod gan feicwyr lwybrau diogel i ffwrdd o draffig.

## Newidiadau i lwybrau beicio wrth arosfannau bysiau



Fe ddylid gosod llwybrau beicio i ffwrdd o lwybrau bysiau lle bynnag mae’n bosibl.




Mae yna reolau newydd i edrych ar, ac osgoi problemau pan fydd llwybrau newydd yn cael eu hychwanegu. Neu lle mae hen gynlluniau yn achosi problemau.



Rydyn ni eisiau cael llwybrau cerdded, olwyno a beicio ar wahân wrth ardaloedd prysur. Yn enwedig ger arosfannau bysiau.



## Cwestiynau am lwybrau beicio wrth arosfannau bysiau

3. **Fe fyddwn ni’n ceisio gosod llwybrau beicio i ffwrdd o arosfannau bysiau, lle mae hyn yn bosibl. Ydych chi’n meddwl bod hyn yn well?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn siŵr

**Dywedwch wrthyn ni os ydych chi eisiau rhannu eich profiadau neu os oes gennych chi unrhyw farn arall am arosfannau bysiau gyda llwybrau beicio:**



Weithiau dydyn ni ddim yn gallu osgoi rhoi llwybrau beicio wrth ymyl arosfannau bysiau.

**Rydyn ni eisiau gwneud arosfannau bysiau gyda llwybrau beicio yn fwy diogel**:



- Gwneud yr ardal lle mae pobl yn aros am neu fynd oddi ar y bws yn fwy llydan.



- Cael **palmant cyffyrddol** i ddangos yn glir lle bydd pobl yn cerdded ac yn olwyno. Hefyd lle mae pobl yn gallu bod yn beicio.




- Ychwanegu arwyddion ar y llawr sy'n dweud wrth bobl sy'n beicio i arafu a rhoi lle i bobl sy'n cerdded ac yn olwyno.



- Gwneud yr ardal y tu ôl i'r lloches bws yn fwy llydan, er mwyn i bobl sy'n beicio ei defnyddio lle mae hynny'n bosibl.




**4. Ydych chi'n meddwl y bydd y newidiadau yma yn helpu?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn siŵr

**Dywedwch wrthyn ni os oes gennych chi unrhyw farn arall am y newidiadau:**



5. **Oes unrhyw bethau eraill y dylen ni feddwl amdanyn nhw neu eu hychwanegu at y canllaw, i wneud arosfannau bysiau gyda llwybrau beicio yn fwy diogel?**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Ddim yn siŵr

**Os oes, dywedwch wrthyn ni am eich syniad yma. Rydych chi hefyd yn gallu atodi dogfennau.**

# Cynllunio ac adeiladu llwybrau teithio llesol



Rhaid i gynllunwyr a dylunwyr gysylltu llwybrau ar gyfer cerdded, olwyno a beicio.



Fe ddylai pobl sy’n cerdded, olwyno a beicio allu gwneud teithiau mor hawdd ac uniongyrchol â phosibl.



Mae’r canllaw yn rhoi cyngor ar ba fathau o lwybrau y dylid eu defnyddio ar wahanol fathau o ffyrdd.




Mae’n dweud pa lwybrau sydd orau ar gyfer ffyrdd yn dibynnu ar:

- Cyflymder traffig.
- Faint o lonydd ffordd sydd angen eu croesi.
- Faint o draffig sydd ar y ffordd.



Rydyn ni wedi newid y cyngor am gyflymder traffig a chroesfannau. Gwella llwybrau teithio llesol a'u gwneud yn fwy diogel.



Mae'r canllaw hefyd yn rhoi cyngor am pa mor llydan ddylai llwybrau beicio fod, yn dibynnu ar:

- Y math o lwybr sydd yn cael ei ddefnyddio.
- Faint o bobl sy'n beicio ar y llwybr.

## Cwestiynau am gynllunio llwybrau ar gyfer cerdded, olwyno a beicio



6. **Ydych chi'n meddwl y bydd y mathau yma o bethau yn gwneud llwybrau yn fwy diogel ac yn haws i'w defnyddio:**

   - **Arafu traffig**
   - **Cadw llwybrau lle mae pobl yn beicio allan o'r ffordd i bobl sy'n cerdded**
   - **Cael llwybrau beicio mwy llydan lle mae llawer o bobl yn beicio**
   - **Rhoi croesfannau lle mae pobl yn naturiol eisiau croesi ffordd.**



☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn siŵr



**Dywedwch wrthyn ni os ydych chi eisiau rhannu eich profiadau neu os oes gennych chi unrhyw farn arall am ddefnyddio gwahanol lwybrau sy'n croesi ffyrdd neu'n cysylltu â llwybrau eraill:**

# Gwneud y canllaw yn haws ac yn gynhwysol



Roedd canllaw 2021 yn anodd ei ddarllen i bobl â cholled golwg.



Nawr, mae darllenwyr sgrin yn gallu darllen y canllaw. Mae hyn yn helpu pobl â cholled golwg i wrando ar y geiriau ar y tudalennau.



Mae'r siartiau a'r tablau yn y canllawiau yn defnyddio rhifau a lliwiau sy'n haws i'w deall.

## Cwestiynau am wneud y canllaw yn haws ac yn gynhwysol




**7. Ydych chi'n meddwl bod hyn yn ddigon i'w gwneud hi'n haws i bobl ddilyn y canllaw?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Ddim yn siŵr

**Dywedwch wrthyn ni os oes gennych chi unrhyw sylwadau:**



8. Fe wnaethon ni newid y geiriau sydd yn cael eu defnyddio i wneud yn siŵr eu bod yn cynnwys anghenion pawb.

   Er enghraifft, fe wnaethon ni stopio defnyddio cerddwr, gyrrwr a beiciwr.

   Rydyn ni'n defnyddio pobl sy'n olwyno nawr i feddwl pobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn, sgwteri symudedd neu gadeiriau gwthio. Mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i bobl feddwl am bob anghenion gwahanol.

   **Ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn helpu pawb i deimlo eu bod wedi'u cynnwys mewn cynlluniau teithio llesol?**

   - [ ] Ydw
   - [ ] Nac ydw
   - [ ] Ddim yn siŵr

**Dywedwch wrthyn ni os oes gennych chi unrhyw sylwadau:**

# Creu lleoedd



Mae creu lleoedd yn meddwl gwneud lleoedd yn braf i bobl.



Mae'n helpu I wneud i gerdded, olwyno a beicio deimlo'n ddiogel ac yn bleserus.




Roedd canllawiau 2021 yn siarad ychydig am greu lleoedd.



Mae gan y canllawiau newydd bennod am greu lleoedd.



Mae'n sôn am [Siarter Creu Lleoedd Cymru]() a chynlluniau lleol yng Nghymru.



Mae'n dangos sut mae creu lleoedd yn gallu gwella strydoedd ar gyfer cerdded, olwyno a beicio.

Mae'n canolbwyntio ar 4 syniad pwysig:



- Gwneud lleoedd yn hawdd i'w deall ac i symud o gwmpas.
- Gwneud lleoedd yn wyrddach gyda pharciau, coed, dŵr, a natur.



- Gwneud mwy o leoedd i eistedd – meinciau a mannau gorffwys.
- Gwneud mwy o leoedd i chwarae – meysydd chwarae ac ardaloedd hwyl..




Mae pob syniad yn cynnwys awgrymiadau ac enghreifftiau.

## Cwestiwn am greu lleoedd



9. **Ydych chi'n meddwl y bydd cynnwys syniadau am greu lleoedd yn helpu pobl i wella gofodau i bawb?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn siŵr

**Dywedwch wrthyn ni os oes gennych chi unrhyw sylwadau:**

# Cymraeg

10. **Sut ydych chi'n meddwl y mae'r newidiadau i ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol yn gallu effeithio ar yr iaith Gymraeg?**

    **Er enghraifft, a fydd yn helpu pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fwy neu yn llai?**




**11. Ydych chi'n meddwl ein bod yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i ganllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol a fyddai'n helpu:**

- **Pobl o ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy.**
- **Cefnogi'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.**
- **Lleihau unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg.**

# Sylwadau eraill



**12. Oes unrhyw beth arall rydych chi eisiau ei ddweud am y newidiadau i'r canllaw?**
Ysgrifennwch eich sylwadau yn y blwch:

# Amdanoch chi



Rydych chi’n gallu ateb yr adran yma os ydych chi eisiau. Eich dewis chi ydy hynny. Fydd eich atebion yn yr adran yma ddim yn cael eu cyhoeddi.

Rydyn ni’n defnyddio’r atebion i wybod pwy sy’n cymryd rhan yn yr arolwg.



**Ydych chi’n byw yng Nghymru?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud



**Ydych chi’n gweithio, yn astudio, neu’n rhedeg busnes yng Nghymru?**

- ☐ Gweithio
- ☐ Astudio
- ☐ Rhedeg busnes
- ☐ Mae’n well gen i beidio â dweud






**Ydych chi'n ateb dros sefydliad?**

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw

Os ydych chi, ysgrifennwch yr enw yma:




**Beth ydy rhan gyntaf eich cod post? Er enghraifft: CF10**



**Beth ydy eich oed chi?**



## Ydych chi'n anabl?

- [ ] Ydw
- [ ] Nac ydw
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud



## Ydych chi yn:

- [ ] Gwryw
- [ ] Benyw
- [ ] Arall
- [ ] Mae'n well gen i beidio â dweud




Diolch am ateb y cwestiynau.